COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 141

Amseru:

Teitl: Cymeradwyaeth ar gyfer prynu cerbyd 4x4 arall

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Yn dilyn achos a gyflwynwyd gan yr Uwch-arolygydd Ifan Charles mewn perthynas â'r angen i uwchraddio cerbyd presennol gogledd Powys i gerbyd 4x4, mae'r CHTh wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi hyn. Mae adran Llanfyllin tua 450 milltir sgwâr ac yn cynnwys milltiroedd o ffyrdd C gwledig tonnog, bryniau, llwybrau fferm a thir uchel. Y cerbyd a ddefnyddir ar gyfer yr ardal hon ar hyn o bryd yw Peugeot 308 safonol. Ar ôl ymchwil maith, canfu bod y cerbyd yn anaddas ar gyfer ymateb i sawl galwad am wasanaeth, gan arwain at oedi o ran ymateb, neu swyddogion yn methu ag ymateb (ceir manylion o fewn yr achos busnes a gyflwynwyd gan yr Uwch-arolygydd Ifan Charles). Cytunodd y CHTh i helpu i brynu cerbyd mwy addas er mwyn cynorthwyo'r tîm yng ngogledd Powys, a dadgomisiynu'r Peugeot 308 sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Cytunwyd i ariannu hyn o gyllideb cronfeydd wrth gefn y cynllun ailhyfforddi gyrwyr.

Argymhelliad:
Cadarnhau y bydd £18,941.32 yn cael ei roi tuag at y gost o brynu cerbyd 4x4 sy'n addas ar gyfer y diben ar gyfer adran Gogledd Powys.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 4/9/2019